



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Cyngori ar AoHNE Gŵyr

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas /
MS Teams

Dydd Llun, 26 Mehefin 2023 am 6.30 pm

Yn Bresennol: P Lloyd (Cadeirydd) Presided

Y Cynghorwyr

P R Hood-Williams

L James

N L Matthews

Aelodau o'r Grŵp Llywio

Howard Evans

Hamish Osborn

Barbara Parry

Clive Scott

Paul Tucker

Swyddog(ion)

Paul Meller

Rheolwr Is-adran yr Amgylchedd Naturiol

Jeremy Parkhouse

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Mike Scott

Swyddog AoHNE Gŵyr

Hefyd yn bresennol

Hannah Bowden

Cymdeithas Archeolegol Morgannwg Gwent

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cynghorydd(wyr): S E Keeton a/ac A H Stevens

Aelodau o'r Grŵp Llywio(wyr): Stephen Heard, Carrie Townsend Jones a/ac

Alan Kearsley-Evans

1 Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2023-2024.

Penderfynwyd ethol Barbara Parry yn Is-gadeirydd ar gyfer y Grŵp Cyngori ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023-2024.

2 Datganiadau o fuddiannau.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3 Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Grŵp Cyngori AoHNE Gŵyr a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023 fel cofnod cywir.

4 Adroddiad Tîm AHNE Gwyr.

Cyflwynodd Paul Meller, Rheolwr yr Amgylchedd Naturiol, Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr ac Ursula Jones, Swyddog Prosiect Cymunedau a Natur y diweddaraf 'er gwybodaeth' am y canlynol: -

- Sioe Gŵyr – byddai gan Bartneriaeth AoHNE Gŵyr babell fawr fel arfer, gan gynnal nifer o bartneriaid.
- Cais am Ddyfarniad Cymuned Awyr Dywyll Gŵyr - cyflwynwyd cais drafft am statws "Cymuned Awyr Dywyll" ym mis Ionawr a disgwylir ymateb gan y Pwyllgor Awyr Dywyll Rhyngwladol. Roedd y cais wedi'i gydnabod, ac roedd swyddog prosiect newydd ei benodi wedi bod mewn cysylltiad.
- Awyr Dywyll Gŵyr – Prosiectau Ôl-osod – Roedd Tŷ Rhosili wedi'i arolygu ac mae'r goleuadau wedi'u huwchraddio i fodloni gofynion defnydd yr adeilad, yn ogystal â chadw at safonau awyr dywyll. Roedd y prosiect cydweithredol ledled Cymru yn mynd rhagddo, ac mae'r ymgynghorwyr goleuadau, Ridge, wedi cynnal arolwg o AoHNE Gŵyr. Byddai adroddiad gydag argymhellion ar gyfer gwelliannau goleuo a chostau amcangyfrifedig yn cael ei ddarparu yn y misoedd nesaf.
- Twyni Bae Porth Einon- roedd gwaith yn cael ei gynllunio ar gyfer mis Medi ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y Cynghorau Cymuned.
- Comin Fairwood – Cwblhawyd gwaith i osod cysylltiad dŵr newydd yng Nghoed Moorlakes ym mis Mawrth 2023, gan ddarparu dŵr yfed ar gyfer anifeiliaid sy'n pori ar y Comin. Roedd arolygon pathewod yn cael eu cynnal i ganfod eu presenoldeb mewn cynefin addas ar y Comin.
- Castell Pennard – Gosodwyd paneli dehongli yn 2022 a 2023. Roedd Cam 1 o'r gwaith tynnu iorwg yn mynd rhagddo, roedd hadau planhigion prin wedi'u casglu a'u tyfu yn y Celtic Wildflower Nurseries, ac roedd cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig wedi'i gyflwyno. Roedd contractwr ar waith i ymgymryd â gwaith ymchwilio fel y gellid llunio dogfen dendro ar gyfer Cam 2 y gwaith (tynnu iorwg a rhywfaint o waith adfer) ar gyfer contractwyr sy'n gwneud cynigion.
- Mannau Addoli Gŵyr – Cwblhawyd arolygon cychwynnol o ddeuddeg eglwys yn 2022. Roedd rhai argymhellion wedi'u rhoi ar waith. Roedd drysau tŵr newydd wedi'u gosod yn Oxwich a Llanrhidian er mwyn caniatáu mynediad parhaus i ystlumod sy'n clwydo. Roedd arolygon arbenigol ar gyfer ystlumod a blychau gwenoliaid yn cael eu cynnal ar gyfer sawl eglwys.
- Parc Gwledig Cwm Clun - Yn dilyn ymweliad safle gyda'r Gwasanaethau Adeiladau Corfforaethol, byddai gwaith sefydlogi'n dechrau'r hydref hwn ar y Tŵr Iorwg. Roedd gwaith hefyd yn cael ei gynllunio ar brif adeiladau Gwaith Arsenig Coed Clun, yn dilyn arolwg amgylcheddol. Roedd cais cynllunio wedi'i gyflwyno

ar gyfer gosod arwyddion newydd yn Blackpill. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i wneud yr adeiladau yn Fferm New Mill yn ddiogel.

Gosodwyd dehongliad bioamrywiaeth a llwybr natur yn 2022. Roedd ail rownd o driniaeth Canclwm Japan wedi'i threfnu ar gyfer hydref 2023. Roedd y cyngor yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar arolwg o Afon Clun i benderfynu pa fesurau adfer a lliniaru llifogydd y gellid eu rhoi ar waith gyda chymorth PCDC.

- Canclwm Japan Parkmill – Roedd trydedd flwyddyn o driniaeth wedi'i threfnu ar gyfer hydref 2023. Byddai arolwg yng ngwanwyn 2024 yn pennu a oes angen am unrhyw driniaeth bellach.
- Panel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy – Cadarnhawyd dyddiadau Panel Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2023/24 (30 Mehefin, 22 Medi, 8 Rhagfyr a 15 Mawrth 2024).
- Grŵp Cynghori AoHNE – Cadarnhawyd dyddiadau'r Grŵp Cynghori ar gyfer 2023/24 (26 Mehefin, 25 Medi a 26 Chwefror 2024).
- Ailfrandio CGAoHNE – Roedd Cymdeithas Genedlaethol yr AoHNE yn trafod ailfrandio sylweddol i fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd yn Adroddiad Marsden – yn bennaf ynghylch cynhwysiant a gweithio gyda chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, gwell cyfathrebu, darparu delwedd fwy unedig, ceisio cyflawni proffil lefel uwch a mwy o gydnabyddiaeth o'u cyfraniad at agendâu adfer byd natur a newid yn yr hinsawdd.
- Staffio Tîm AoHNE – Roedd swydd "Swyddog Natur a Chymunedau AOHNE" yn cael ei hysbysebu, a fyddai'n darparu trydydd aelod o staff o fewn tîm AOHNE, gan alluogi mwy o waith prosiect i gael ei wneud. Roedd y gwaith o ailstrwythuro Adran yr Amgylchedd Naturiol yn parhau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am yr adroddiad.

5 Arwyddion Ffyrdd a Phentref.

Tynnodd Howard Evans, Cymdeithas Gŵyr, sylw at nifer ac amrywiaeth yr arwyddion ffyrdd ledled Gŵyr. Dosbarthodd nifer o enghreifftiau o'r arwyddion i'r grŵp, a oedd yn pwysleisio diffyg cysondeb cynnwys, gwahaniaethau mewn arddull/dyluniad ac mewn rhai achosion, eu lleoliadau gwael a oedd yn effeithio ar welededd.

Trafododd y Grŵp yr opsiynau sydd ar gael i ddatblygu'r mater, gan gynnwys materion priffyrdd/cynllunio, gorfodi.

Cynigiwyd y dylid rhoi cyfle i Briffyrdd ymateb i'r materion a godwyd.

Penderfynwyd: -

- 1) rhoi'r cyfle i Briffyrdd ymateb i'r materion a godwyd.
- 2) Bydd y mater yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

6 Cronfa Datblygu Cynaliadwy - Crynodeb Ariannol.

Cyflwynodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, adroddiad ariannol cryno Panel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) 'er gwybodaeth'.

Nodwyd bod y gyllideb o £100,000 ar gyfer 2022/23 wedi'i gwario'n llawn a bod cyfanswm o 19 prosiect wedi'u cefnogi.

Roedd ffigur y Cronfeydd Neilltuedig yn cynnwys ffi reoli DASA sef £10,000.

Cyfanswm yr arian sydd ar gael	£100,000
Cronfeydd Neilltuedig	£100,000
Cronfeydd heb eu Neilltuo	£0
Ceisiadau ar waith	£0

Ychwanegwyd y byddai adroddiad manwl yn cael ei lunio dros yr haf a'i ddsbarthu i'r Grŵp Llywio, gan dynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y prosiectau a gefnogwyd.

Yn ogystal, roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllideb y Gronfa Datblygu Cynaliadwy o £100,000 ar gyfer 2023/24. Hyd yn hyn, roedd arian wedi'i neilltuo ar gyfer 14 o brosiectau, gyda 4 cais arall ar y gweill.

Roedd ffigur y Cronfeydd Neilltuedig yn cynnwys ffi reoli DASA sef £10,000.

Cyfanswm yr arian sydd ar gael	£100,000
Cronfeydd Neilltuedig	£53,173
Cronfeydd heb eu Neilltuo	£46,827
Ceisiadau ar waith	£30,616

Cadarnhawyd y byddai cyfarfod nesaf Panel Grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cael ei gynnal ar 30 Mehefin 2023.

Daeth y cyfarfod I ben am 7.00 pm

Chair